Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Chwefror 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans – Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, Clifford Williams John Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan, Huw Pritchard Delyth Evans Manon Jones Evans – Pentrefelin.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Dylan Pritchard, Iddon Edwards, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws.

Cyn cychwyn y cyfarfod, cyfeiriwyd at farwolaeth Mr John Edwards fu'n cynrychioli ardal Treflys ar y Cyngor Cymuned am ddegawdau. Anfonwyd cofion at ei deulu.

3 **Ddim yn bresennol** - neb.

4 **Datgan buddiant** – Eitem 11 DE, RP, MLW, ANO, HP.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 7/1/21. Eitem 9 Adroddiad Pentrefi . Problemau gyda ffonau – dylai'r pennawd ddarllen Cwm Pennant a Chwmystradllyn.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

<u>Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth</u> - Lôn Prenteg - Cwmystradllyn - derbyniwyd y costau ar gyfer atgyfnerthu'r lôn a'r costau am asesiad amgylcheddol.

<u>Materion Priffyrdd mis Rhagfyr ac Ionawr</u>

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r llythyrau. Yn dilyn ymholiad am hyn, derbyniwyd ymddiheuriad ac eglurhad fod blaenoriaeth wedi cael ei roi i'r trafferthion ynghlwm a'r tywydd garw diweddar.

<u>Bryncir</u> – Bont Felin dŵr yn cronni – gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle rhwng Cynghorwyr Bryncir ac aelod o staff Cyngor Gwynedd.

Ffordd Mynwent Prenteg – derbyniwyd ateb gan berchnogion Fferm Fron Oleu yn cytuno i'r Cyngor Cymuned wneud gwaith cynnal a chadw ar y ffordd.

7 **Mynwentydd**

Prosiect Mynwentydd Byw Eryri - Adroddwyd fod y Swyddog sy'n gyfrifol am y prosiect am ymweld â rhai o'r Mynwentydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned i asesu eu haddasrwydd ar gyfer y prosiect.

Mainc Mynwent Bethel – Penderfynwyd y byddai cynrychiolydd Golan yn cael dewis pa fainc i'w brynu.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr Rhif 37 Cefn Meusydd Uchaf i Hendregadredd - llifogydd diweddar wedi difrodi'r llwybr. Clerc i gysylltu gydag Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Prenteg

Mae 2 o'r cwlferi sy'n mynd i fyny trwy'r pentref gyferbyn a Phlas Aberdeunant wastad ar gau. Holi beth yw'r rheswm am hyn.

Pentrefelin

Mae llifogydd diweddar wedi gwneud difrod i'r lôn i fyny am Tynllech.

Draen wedi cau rhwng Pont Wern a Thŷ Bryn Derwen - dipyn o ddŵr yn llifo lawr ochor y lôn.

Wal wedi disgyn i'r lôn rhwng Bryn Melyn a Garthmorthin. Mae arwyddion wedi gosod yna, ond angen holi pwy sy'n gyfrifol am ail godi'r wal.

Mae gwaith cynnal wedi cael ei wneud yn Bont Wern ers mis Tachwedd, Mae angen peintio'r llinellau gwyn yn nôl.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Garndolbenmaen

Peipen wedi torri wrth Frondeg. Yn ystod y tywydd garw diweddar, cafodd 3 eiddo gerllaw dŵr i'r gerddi neu adeiladau allanol. Mae Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ymweld ag gobeithir cychwyn ar y gwaith o adnewyddu'r beipen yn fuan.

Gosod bocs baw cŵn ym Mynydd Glas – Cynghorydd Stephen Churchman yn trefnu hyn.

10 Y Farchnad Dai Gwyliau

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Nefyn yn gofyn i'r Cyngor Cymuned yrru llythyr parod parthed rheoli'r farchnad dai gwyliau at Julie James AS, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Tref Nefyn ddiffinio beth ydy ail gartref, hynny yw, a yw'n cynnwys tai o dan berchnogaeth trigolion lleol sy'n cael eu gosod i deuluoedd lleol.

11 Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol –

£1000 – Apêl Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd;
£300 – Neuaddau Garndolbenmaen, Pentrefelin, Golan, Penmorfa; Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru;
£200 – Cyfeillion Ysgol y Gorlan, Cylch Meithrin Garndolbenmaen;
£50 – Pwyllgor Mynwent Tai Duon;
£50 – Grŵp Mynediad Dwyfor.

12 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - rhybudd cau ffordd ger Tyrpeg Traeth - Glan y Don Nantmor 25/1/21. Yn dilyn derbyn sawl rhybudd gyda chyfarwyddiadau anghywir am ffyrdd eraill i ddilyn, penderfynwyd cysylltu gyda Phrif Weithredwr, Cyngor Gwynedd.
Rhybudd cau ffordd dosbarth III o Hen Efail i'r Gogledd Ddwyrain i Gefn Coch Isaf, Cwmystradllyn 9/3/21.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Arfon Dwyfor 7 yh 10/2/21.

b Unllais Cymru – Hyfforddiant am Ddim.
c Llywodraeth Cymru – Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2020 – 2021.
ch Llywodraeth Cymru - Cysylltu â'ch Cymuned Leol. Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod.
d Eisteddfod Genedlaethol – gohirio Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022.
dd Mantell Gwynedd Bwletin Rhif 9.

13 **Cynllunio**
Rhestrau – 8/1, 15/1, 22/1/2021.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/159C Tŷ Mawr Prenteg. Dymchwel yr estyniad talcen, trosi estyniad a newid defnydd yr allandy yn anecs achlysurol i ddefnydd domestic Tŷ Mawr a throsi sied bren yn glwyd ystlumod. Dyddiad cau 3/2/21. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/413D Beudy Mawr, Erw Suran, Cwmystradllyn. Codi sied offer amaethyddol. Dyddiad cau 3/2/21. Gwrthwynebu ar sail pellter y sied o'r tŷ a bod y perchennog wedi dewis newid siediau oedd yna yn unedau gwyliau.

NP2/16/79V Parc Carafanau Aberdeunant, Prenteg – Amnewid y podiau Gwyliau presennol a chreu llefydd parcio ffurfiol cysylltiol. Dyddiad cau 2/2/21. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/T413C Beudy Mawr, Erw Suan, Cwmystradllyn. Codi estyniad ochor a gosod 2 ffenestr. Dyddiad cau 3/2/21. Dim gwrthwynebiad. Beudy Mawr yn ward Prenteg ac nid yng Ngolan. Angen cael map o'r wardiau ar y wefan.

14 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: Cyfeillion Ysgol y Gorlan. Derbyniwyd 31/12/20.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:
Cyflog Clerc = £ 253.33

Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Idris Jones	=	£4,500.00

Derbyniadau - Pritchard & Griffiths £330.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.89 Cyfredol £17,779.25

15 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

Wasg – Rhoddion Ariannol, Rhybuddion Cau Ffordd, Dŵr yn cronni, Ceisiadau Cynllunio.

Gwefan –